



Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref SF/EH/1729/14

Aelodau'r Cynulliad

17 Mehefin 2014

Annwyl Aelod Cynulliad

Yn dilyn yr wybodaeth ddiweddaraf a roddais am Wyddoniaeth Cymru yn y cyfarfod llawn ddydd Mawrth 3 Mehefin, credais y byddai'n ddefnyddiol rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y materion ehangach ym maes gwyddoniaeth a godwyd yn ystod y cyfarfod llawn.

Menywod mewn Gwyddoniaeth

Rwy'n cytuno bod hyn yn broblem ac mae'r Prif Gyngorydd Gwyddonol wedi sefydlu Grŵp Gwyddoniaeth i Fenywod. Yr Athro Teresa Rees, sy'n arbenigwraig adnabyddus, fydd yn arwain y grŵp a fydd yn ystyried materion sy'n codi o fod yn ifanc hyd at ddiwedd gyrfa ac yn amlinellu atebion posibl.

Cydweithredu

Dangosodd adroddiad Elsevier bod Gwyddonwyr yng Nghymru yn eang eu gorwelion, a bod 60 y cant o'u cyhoeddiadau yn rhai cydweithredol eu natur. Nododd fod y rhan fwyaf o'r papurau mwyaf nodedig yn deillio o'r cydweithredu rhyngwladol hwnnw. Yn y trydydd ar ddeg arolwg blynyddol sy'n edrych ar y rhyngweithiad â chymunedau a busnesau a gyhoeddwyd yn ddiweddar, nododd HEFCW fod prifysgolion Cymru yn rhagori ar ddisgwyliadau o ran ymchwil gydweithredol â busnesau, gan sicrhau cyfran o 7.4 y cant o'r incwm yn y DU ac mae'r cydweithredu hwn yng Nghymru yn fwy na'r disgwyl ar gyfer ein poblogaeth.

Er mwyn cefnogi cydweithredu ymhellach, ac i ddenu'r gwyddonwyr gorau o bob cwr o'r byd, byddwn yn gwneud cais sylweddol i Gydgronfa Marie Skłodowska Curie Horizon 2020 i ddenu hyd at 90 o gymrodorion ymchwil i Gymru.

Dangosodd Adroddiad Elsevier hefyd fod gwyddonwyr yng Nghymru yn effeithlon, yn gynhyrchiol, ac mewn rhai achosion ar flaen y gad yn fyd-eang, a'r rheswm pam nad ydym yn gallu sicrhau y lefel ddisgwyliedig o gyllid grant yw oherwydd nad oes digon o wyddonwyr yng Nghymru. Felly mae Rhaglenni Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar adeiladu ar ein cryfderau a chynyddu nifer y gwyddonwyr all lwyddo yng Nghymru.

Yr Academi Wyddoniaeth Genedlaethol

Mae'r Prif Gynghorydd Gwyddonol yn adolygu'r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol a bydd yn creu strategaeth i ysbrydoli pobl ifanc i fod yn wyddonwyr yn y dyfodol, a bydd yn adrodd yn ôl yn yr hydref.

A handwritten signature in black ink, appearing to be 'L. M.', written in a cursive style.